# Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

## 1. Amcanion y polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Mae’r Asesiad Effaith Integredig hwn yn cael ei gynnal mewn perthynas â chyhoeddi pedair dogfen ganllawiau sydd wedi’u diweddaru gan Lywodraeth Cymru, ac sy’n cyfarwyddo awdurdodau lleol i gynorthwyo aelodau’r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hardaloedd perthnasol.

Cafodd y dogfennau hyn eu diwygio a’u hailgyhoeddi’n wreiddiol yn 2015, ac ers hynny maent wedi bod yn destun ymgynghoriad ac wedi cael eu diwygio i’w hailgyhoeddi yn ystod Haf 2025. Mae gwahanol randdeiliaid wedi bod yn rhan o’r gwaith o ymgynghori ar y dogfennau hyn, gan gynnwys mudiadau trydydd sector, Comisiynydd Plant Cymru, awdurdodau lleol ac, yn bwysicaf oll, aelodau o’r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu hunain.

Mae’r dogfennau canllawiau hyn wedi cael eu diweddaru yn dilyn un o gamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP)[1]. Un o’r nodau ym mhennod Cartrefi a Lleoedd y Cynllun hwnnw yw “cydnabod bod angen llety diogel diwylliannol briodol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o’u bywydau ac er mwyn ymdrin â’r prinder safleoedd a’r llety o ansawdd gwael sydd ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.” Mae’r nod hwn yn cynnwys cam gweithredu i ‘Ailddrafftio a symleiddio’r Canllawiau ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys aelodau o’r gymuned er mwyn adlewyrchu eu hanghenion’, sef yr hyn y mae’r dogfennau canllawiau diwygiedig hyn yn ceisio ei wneud. Hefyd, mae’r bennod Troseddu a Chyfiawnder yn cynnwys cam gweithredu sy’n ymwneud â ‘Diweddaru’r canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod, gan gynnwys aelodau o’r gymuned er mwyn adlewyrchu eu hanghenion.’

Mae’r dogfennau canllawiau’n cael effaith uniongyrchol ar gymunedau a theuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru sydd, yn anochel, yn cynnwys plant a phobl ifanc.

<u>Dyma’r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd:</u>

- **Rheoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi**

Mae’r canllawiau diwygiedig hyn yn rhoi cyngor i awdurdodau lleol ar sut i ddelio â gwersylloedd heb eu hawdurdodi. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y byddai mabwysiadu’r dull hwn o weithredu o bosibl yn gwella canlyniadau i Sipsiwn a Theithwyr, preswylwyr sefydlog ac awdurdodau lleol.

- **Cynnal asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr**

[1] Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol lunio asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr o dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ac mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ar sut i gynnal yr asesiadau hyn yn effeithiol.

Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio i helpu awdurdodau lleol wrth iddynt gynnal asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr.

Os dilynir y canllawiau, disgwylir iddynt gael effaith gadarnhaol ar yr holl Sipsiwn a Theithwyr – gan gynnwys plant a phobl ifanc – gan fod y canllawiau'n helpu i sicrhau gwell asesiad o anghenion llety, a byddant yn sail i ddarpariaeth awdurdodau lleol yn y dyfodol o lety sy'n ddiwylliannol briodol.

- **Dylunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

Mae'r canllawiau ar Ddylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn ceisio helpu Awdurdodau Lleol i ddylunio eu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn briodol. Cafodd y canllawiau eu diwygio yn 2015 er mwyn egluro hawliau a rhwymedigaethau perchnogion safleoedd a'r preswylwyr. Er nad oedd fersiwn 2025 o'r canllawiau yn cynnwys unrhyw newidiadau deddfwriaethol mawr ers fersiwn 2015, mae'r iaith a ddefnyddir wedi cael ei hadnewyddu gryn dipyn. Bydd y canllawiau'n effeithio ar bawb sy'n defnyddio safle, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Drwy gydymffurfio â'r canllawiau hyn, dylai safleoedd Awdurdodau Lleol ddod yn fannau mwy diogel i fyw, lle mae plant yn cael cyfle i gyflawni eu potensial.

- **Rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

Mae'r canllawiau hyn yn ceisio helpu Awdurdodau Lleol i reoli eu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn briodol. Maent yn diweddaru'r canllawiau presennol ar Reoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, a gafodd eu hadnewyddu yn 2015. Bydd y canllawiau hyn yn effeithio ar bawb sy'n defnyddio safle, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Pa ymchwil a data presennol am blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau â thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith, ac yn sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.

Roedd Cyfrifiad 2021[2] yn amcangyfrif bod 3,630 o drigolion Cymru yn ystyried eu hunain yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021). Ar hyn o bryd nid oes gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddata ar y niferoedd penodol o blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn grwpiau penodol sydd ag anghenion penodol. Mae rhai'n preswylio ar natur fwy parhaol, ac eraill yn fwy byrhoedlog. Gallant fyw mewn carafannau, mewn cartrefi symudol, ar gychod, ac mewn eiddo brics a mortar. Gallant

---

[2] Cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr: Ionawr 2025 (ystadegau swyddogol wrthi'n cael eu datblygu) [HTML] | LLYW.CYMRU

breswylio mewn safleoedd a ddarperir gan awdurdodau lleol, ar safleoedd preifat, neu mewn gwersylloedd heb eu hawdurdodi.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn rhan graidd o'n holl bolisïau ar gyfer plant, ac sy'n effeithio ar blant. Mae'n ganolog i'n huchelgais i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn ac i wella eu canlyniadau. Rydym ni o'r farn bod y dogfennau canllawiau hyn yn helpu i wireddu'r hawliau sydd wedi'u hymgorffori yn CCUHP drwyddo draw drwy ddylunio safleoedd yn well, a fydd yn darparu llety sefydlog a diwylliannol briodol i bobl ifanc lle gallant gyflawni eu potensial. Fodd bynnag, o ran erthyglau penodol, Erthyglau 8, 12, 27, 30 a 31 yw'r rhai mwyaf arwyddocaol.

Mae'r tabl yn adran 3 yn amlinellu'n fanylach Erthyglau penodol a'u perthnasedd o ran cyhoeddi'r dogfennau canllawiau hyn.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y pedair dogfen ganllawiau hyn, cafwyd ymateb gan Gomisiynydd Plant Cymru. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn croesawu'r canllawiau diweddaraf, ac roedd yn argymell ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig Erthyglau 12 a 30. Eglurodd y Comisiynydd y dylai'r canllawiau fynd ymhellach, drwy nodi camau ymarferol i ymgysylltu'n gynhwysol, yn dryloyw ac yn ddiwylliannol sensitif â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Ers hynny, mae hyn wedi cael ei ddiweddaru a'i gynnwys yn y dogfennau canllawiau sy'n ymwneud yn benodol â rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn ddirwystr ym mhroses yr asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn gymesur â'u gallu (yn amodol ar ganiatâd y rhieni).

Mae'r ddogfen ganllawiau a ddiweddarwyd ar gyfer asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr bellach yn egluro hefyd y dylid cydnabod plant a phobl ifanc nid yn unig yng nghyd-destun darpariaeth tai y dyfodol, ond hefyd fel unigolion â phrofiadau bywyd. Rhaid cynnwys eu safbwyntiau, a rhoi cyfle iddynt ddylanwadu ar eu hamgylchedd byw, fel rhan ganolog o broses yr asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr.

- Gan ddefnyddio'r ymchwil hon, sut ydych chi'n rhag-weld y bydd eich polisi'n effeithio ar wahanol grwpiau[3] o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch fod polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion yn gallu effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.

Bydd y canllawiau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dylid ystyried yn ofalus amgylchiadau plant sy'n byw mewn gwersylloedd heb eu hawdurdodi, a dylai plant o'r gymuned sefydlog gael eu diogelu rhag gwersylloedd anniogel neu amhriodol yn eu hardal. Os bydd awdurdodau lleol yn cadw at y canllawiau hyn, mae'r hawliau uchod –

[3] Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwch yn ystyried sut byddai eich polisi'n effeithio'n wahanol ar y grwpiau a ganlyn o blant a phobl ifanc: y blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi; plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal; plant Pobl LHDTC+. Cofiwch nad yw'r rhestr hon yn gyflawn, ac na fydd un profiad unffurf o fewn y carfannau hyn.

sydd wedi'u hymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – yn debygol o gael eu gwireddu.

Dylai'r canllawiau hyn helpu awdurdodau lleol i asesu lles pennaf plant sy'n defnyddio safleoedd, a ddylai fod yn ffactor allweddol wrth benderfynu sut i fwrw ymlaen. Er enghraifft, mae'r canllawiau a ddiweddarwyd yn amlinellu y dylid dylunio safleoedd gyda phlant a phobl ifanc mewn golwg – hynny yw, mae'n bwysig cael ardal i blant a phobl ifanc chwarae ac ymgynnull, yn enwedig os nad oes man chwarae addas yn y gymuned ehangach sydd o fewn pellter cerdded diogel.

Mae cynnal asesiadau lles, ar y cyd â Sipsiwn a Theithwyr gan gynnwys plant, yn rhan hanfodol o'r broses lle gall awdurdodau cyhoeddus ddangos bod eu gweithredoedd yn cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol. Gellir defnyddio hyn hefyd i ddangos bod hawliau plant yn cael eu hystyried.

- Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc ydych chi wedi ei ddefnyddio fel sail i'ch polisi? Os nad ydych chi wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.[4]

Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y pedair dogfen ganllawiau gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr ei gynnal gan ddau fudiad trydydd sector. Wrth i'r contract hwn i ymgysylltu â'r gymuned gael ei ddyfarnu i'r ddau fudiad, roedd y fanyleb yn nodi bod rhaid i unrhyw fath o ymgysylltiad ag aelodau'r gymuned fod yn hygyrch, beth bynnag fo'u rhywedd/iechyd/anabledd/ethnigrwydd ac ati, er mwyn rhoi cyfle cyfartal iddynt gymryd rhan yn y broses ymgysylltu. Roedd hyn yn cynnwys ystyried plant a phobl ifanc.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, pa effaith mae'ch polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Drwy gydymffurfio â'r canllawiau a ddiweddarwyd, dylai safleoedd Awdurdodau Lleol ddod yn lleoedd mwy diogel i fyw, lle mae plant yn cael cyfle i gyflawni eu potensial.

Rydym ni o'r farn bod y canllawiau hyn yn helpu i wireddu'r hawliau sydd wedi'u hymgorffori yn CCUHP drwyddo draw drwy ddylunio a rheoli safleoedd yn well, a fydd yn darparu llety sefydlog a diwylliannol briodol i bobl ifanc lle gallant gyflawni eu potensial.

Nid yw'r canllawiau a ddiweddarwyd yn arwain at unrhyw effeithiau negyddol canfyddedig ar blant a phobl ifanc, ar wahân i awdurdodau lleol yn dewis peidio â dilyn y canllawiau a'r argymhellion. Er mwyn lliniaru hynny, bydd y tîm polisi yn holi awdurdodau am hynny yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu.

[4] Mae Erthygl 12 CCUHP yn nodi bod gan blant hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

- Sut mae'ch cynnig yn gwella neu’n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a’i Brotocolau Dewisol? Edrychwch ar yr erthyglau i weld pa rai sy’n berthnasol i’ch polisi eich hun.

| Erthyglau neu Brotocol Dewisol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 2** – Mae’r Confensiwn yn berthnasol i bawb beth bynnag fo’u hil, crefydd, gallu, beth bynnag y maent yn ei feddwl neu’n ei ddweud neu ba fath bynnag o deulu y maent yn dod ohono. | X | | Bydd y dogfennau canllawiau diwygiedig yn cael effaith gadarnhaol ar Sipswn a Theithwyr sy’n meddiannu safleoedd heb eu hawdurdodi fel rhan o’u ffordd draddodiadol o fyw. |
| **Erthygl 3** – Dylai pob sefydliad sy’n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | X | | Mae’r dogfennau canllawiau diwygiedig yn ceisio hybu asesiad effeithiol o anghenion lles, gan gynnwys anghenion lles plant yn benodol. Maent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd asesu pob gwersyll fesul achos i sicrhau bod amgylchiadau pob person ifanc yn cael eu hystyried. |
| **Erthygl 5** – Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfarwyddo ac arwain eu plant fel eu bod, wrth iddynt dyfu, yn dysgu defnyddio’u hawliau’n briodol. | X | | Nod y canllawiau diwygiedig yw hwyluso ffordd o fyw draddodiadol Sipswn a Theithwyr. Roedd y canllawiau a ddiweddarwyd yn mynnu y dylai rheolwyr safle sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle cyfartal i ddefnyddio eu hawl i gael eu clywed. |
| **Erthygl 6** – Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn | X | | Bydd asesiadau lles yn asesu’r risgiau sy’n wynebu plant a phobl ifanc o ganlyniad i droi allan yn ogystal â goddefgarwch. Rhaid i benderfyniadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| goroesi ac yn datblygu'n iach. | | | awdurdodau lleol geisio sicrhau iechyd a lles plant.<br><br>Mae'r canllawiau a ddiweddarwyd yn argymell ardal lle gall plant a phobl ifanc chwarae ac ymgynnull, yn enwedig os nad oes man chwarae addas yn y gymuned ehangach sydd o fewn pellter cerdded diogel. Mae angen ystyried pob safle yn unigol ac yng nghyd-destun amodau lleol. Yn ddelfrydol, bydd plant sy'n byw ar y safle yn gallu cael mynediad diogel at fannau chwarae cyfagos sy'n cael eu defnyddio gan y gymuned ehangach. Fodd bynnag, lle nad yw hyn yn bosibl, dylai safleoedd gynnwys mannau chwarae dynodedig lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. |
| Mae **Erthygl 8** yn mynnu bod gwladwriaethau'n parchu hawl plant i gadw eu hunaniaeth, a dylid cryfhau hynny drwy arferion rheoli sy'n ceisio casglu barn y plant a'r bobl ifanc hyn. | X | | Bydd rheolwyr safle sy'n meithrin perthynas â theuluoedd, plant a gwasanaethau, fel yr heddlu, yn helpu i wireddu'r hawl hon. |
| Mae **Erthygl 12** yn ymwneud â hawl pobl ifanc i'w lleisiau gael eu clywed ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. | X | | Mae'r canllawiau ar Reoli safle Sipsiwn a Theithwyr yn mynnu y dylai rheolwyr safle sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle cyfartal i ddefnyddio eu hawl i gael eu clywed. Mae'r canllawiau hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod hyn wedi'i ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Roedd **Erthygl 13** yn ymwneud â'r Hawl i wybodaeth. | X | | Bydd y dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â fersiwn hygyrch hawdd ei deall, a fydd yn helpu pobl ifanc i gael gafael ar yr wybodaeth hon/canllawiau hyn. |
| **Erthygl 19** – Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael gofal priodol, ac yn cael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt. | X | | Mae'r canllawiau'n mynnu bod awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau lles i sicrhau bod modd gofalu'n briodol am blant ar y safle. Hefyd, rhaid i'r broses o wneud penderfyniadau ystyried effaith unrhyw gamau gweithredu ar les plant. |
| **Erthygl 24** – Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon, ac amgylchedd glân er mwyn aros yn iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | X | | Rhaid i awdurdodau sicrhau bod y rheini sy'n meddiannu gwersylloedd yn derbyn asesiad o unrhyw faterion iechyd a'u bod yn gallu cael y gofal priodol. Rhaid rhoi amser hefyd i deuluoedd sydd wedi cael genedigaeth yn ddiweddar cyn cymryd unrhyw gamau meddiannu posibl. Mae'r canllawiau'n gwneud y pwyntiau hyn yn glir.<br><br>Mae'r canllawiau'n annog awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau dŵr, glanweithdra a gwaredu gwastraff i wersylloedd. |
| **Erthygl 27** – Mae gan blant yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd sy'n methu fforddio darparu hynny. | X | | Rhaid i broses yr awdurdod lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau ystyried y safon byw ddisgwyliedig y bydd plant yn ei hwynebu os byddant yn cael eu troi allan, tra byddant ar y safle, neu mewn llety realistig arall. Mae'r canllawiau'n darparu templed ar gyfer cynnal asesiadau lles.<br><br>Bydd plant sy'n byw ar hyn o bryd ar safle sydd wedi'i ddylunio'n dda yn llawer mwy tebygol o allu gwireddu'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hawl hon na'r rheini sy'n byw mewn amodau is na'r safon neu orlawn.<br><br>Dylai plant mewn cymunedau sefydlog elwa o ystyriaeth briodol i wersylloedd anniogel neu amhriodol yn eu hardal. |
| **Erthygl 28 –** Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | X | | Mae'r canllawiau'n dweud yn glir y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod lleoliad safleoedd yn ei gwneud yn bosibl i dderbyn gwasanaethau fel addysg, ac y dylent fod o fewn pellter rhesymol.<br><br>Mae'r canllawiau hefyd yn argymell y dylid cynnwys cyfleusterau cymunedol, fel sesiynau addysg a blynyddoedd cynnar, fel rhan o ddyluniad y safle. |
| **Erthygl 30 –** Mae gan blant yr hawl i ddysgu ac i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl yn y wlad ai peidio. | X | | Mae'r canllawiau hyn yn ceisio cael cydbwysedd rhwng arferion diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr a gorfodi cyfraith cynllunio a'r effaith ar eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod Sipsiwn a Theithwyr yn gallu byw ar safleoedd cartrefi symudol os dyna maent yn ei ffafrio. Wrth wneud hynny gall teuluoedd rannu eu harferion â'u plant, a'u haddysgu am yr arferion.<br><br>Drwy hyrwyddo arferion dylunio a rheoli da, mae safleoedd yn debygol o fod yn llawn, ac mae plant yn fwy tebygol o elwa o lety sefydlog ar safle a fydd yn parchu eu diwylliant.<br><br>Yng nghyd-destun Sipsiwn a Theithwyr, mae'n bosibl y bydd hyn yn berthnasol i'w diwylliant o fyw mewn cartrefi symudol gydag aelodau eraill o'r teulu o'u hamgylch. Drwy hyrwyddo arferion dylunio da, mae safleoedd yn debygol o fod yn llawn, ac mae plant yn fwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | tebygol o elwa o lety sefydlog ar safle a fydd yn parchu eu diwylliant. |
| **Erthygl 31 –** Mae gan blentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau. | X | | Mae'r canllawiau'n hybu'r modd i blant a phobl ifanc ddefnyddio mwy o gyfleusterau chwarae a hamdden pan fydd awdurdodau lleol yn dylunio safleoedd.<br><br>Mae'r canllawiau'n egluro y dylid darparu mannau chwarae diogel sydd wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer plant ar safleoedd, pan fydd hynny'n briodol. |

Mae'r canllawiau hyn yn annog awdurdodau cyhoeddus i asesu lles pennaf plant sy'n defnyddio safleoedd, a ddylai fod yn ffactor allweddol wrth benderfynu sut i fwrw ymlaen.

Mae cynnal asesiadau lles, ar y cyd â Sipsiwn a Theithwyr gan gynnwys plant, yn rhan hanfodol o'r broses lle gall awdurdodau cyhoeddus ddangos bod eu gweithredoedd yn cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol. Gellir defnyddio hyn hefyd i ddangos bod hawliau plant yn cael eu hystyried.

Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn canmol Llywodraeth Cymru am fynd i'r afael â phroblemau parhaus sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol drwy'r canllawiau drafft a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r Comisiwn hefyd yn gwerthfawrogi cyfeiriadau at gyfraith achosion ym maes hawliau dynol, hawliau pobl hŷn, mesurau diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chonfensiynau perthnasol y Cenhedloedd Unedig, yn enwedig confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn (CCUHP).

Mae cyhoeddi'r dogfennau canllawiau hyn a ddiweddarwyd yn rhoi sylw i un o argymhellion adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant ar gyfer 2023-24, sef:

"Defnyddio fforwm cymunedol yn fodd i gyfleu diweddariadau ynghylch camau gweithredu a chynnydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan weithio gyda sefydliadau rhanddeiliaid allweddol i gyfathrebu'n rheolaidd gydag aelodau'r gymuned, yn cynnwys plant a phobl ifanc."

Bydd y dogfennau hyn yn cael eu cyhoeddi, gyda fersiynau hawdd eu deall ar gael i'r cyhoedd.